



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar y cyflenwad tai fforddiadwy

Irene Bucelli ac Abigail McKnight

Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol
Economeg Llundain

Medi 2022

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall dystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy www.wcpp.org.uk

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.



Economic and Social Research Council

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cefndir	5
Cyflwyniad	6
Cyd-destun polisi	9
Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi	15
Heriau a ffactorau hwyluso	24
Casgliad	26
Cyfeirnodau	28
Atodiad: Methodoleg	37
Diolchiadau	42

Crynodeb

- Gall tai chwarae rhan bwysig wrth atal a lleddfu tlodi, ond gallant hefyd atgynhyrchu a gwaethygu'r anfantais bresennol. Mae eu heffaith ar dlodi yn dibynnu ar sut mae'r system dai yn ffurfio argaeledd, cost, ansawdd, lleoliad a sicrwydd llety.
- Mae system y Deyrnas Unedig wedi blaenoriaethu perchentyaeth a buddsoddiad cyhoeddus ar ochr y galw ers amser maith, tra bod crebachiad y sector rhentu cymdeithasol yn tanseilio'r hyn a oedd unwaith yn elfen effeithiol iawn o'r wladwriaeth les. Mae'r system hefyd yn cynyddu gwahanu gofodol, sy'n effeithio ar allgáu cymdeithasol.
- Mae darparu tai gwirioneddol fforddiadwy wedi cael ei ddiogelu'n fwy yng Nghymru nag yn Lloegr, ond mae cyfleoedd i wella.
- Gellir dysgu gwersi o wledydd eraill yn Ewrop, lle mae'r sector rhentu cymdeithasol yn cystadlu â'r sector rhentu preifat, gan greu system 'fforddiadwyedd ehangach' sy'n annog safonau uwch ac yn ffrwyno costau tai gormodol. Felly, gallai cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy nid yn unig sicrhau enillion tymor byr, ond hefyd wella fforddiadwyedd tai yn y tymor hir a lleihau ansefydlogrwydd y farchnad dai.
- Mae cysylltiadau rhwng cyflenwad tai fforddiadwy a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:
 - **Tlodi tanwydd:** Mae cysylltiad agos rhwng fforddiadwyedd ehangach tai a'u heffeithlonrwydd ynni.
 - **Anfantais drafnidiaeth:** Mae lleoliad tai a mynediad at drafnidiaeth, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol yn bwysig mewn perthynas â fforddiadwyedd. Gall cyfaddawdu rhwng fforddiadwyedd tai a fforddiadwyedd trafndiaeth danseilio ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.
 - **Ansicrwydd bwyd; Allgáu digidol; Dyled aelwydydd:** Mae costau tai yn effeithio'n sylweddol ar adnoddau aelwydydd, gan effeithio ar wariant ar hanfodion eraill yn ogystal â pherygl mynd i ddyled.
- Daw'r adolygiad i ben gyda rhai camau gweithredu addawol, gan gynnwys:
 - Blaenoriaethu hybu darpariaeth tai cymdeithasol, i oresgyn yr heriau presennol a chreu'r amodau ar gyfer newid systemig hirdymor.
 - Hyrwyddo rheoleiddio, safonau ansawdd ac amddiffyn tenantiaid yn y sector rhentu preifat.

Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)¹ yn Ysgol Economeg Llundain i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyflenwad tai fforddiadwy.

Dyma'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym mhob un o'r deuddeg adolygiad polisi:

- Pa bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau ryngwladol sy'n effeithiol wrth leddfu tlodi?
- Pa briodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hynny?

Ymdrinnir â'r cwestiynau drwy ddarparu:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a phrif fentrau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth fanwl am berthynas y maes polisi dan sylw â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch profiad a allai helpu i ddeall effaith polisïau ar bobl ac ymateb y bobl i bolisïau o'r fath;
- Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd polisïau (gan gynnwys astudiaethau achos); a
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob adolygiad unigol, nodi cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a chloriannu'r holl dystiolaeth i roi nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg maes. Cyfeiriwch at yr

¹ Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) ym 1997. Canolfan ymchwil amlddisgyblaethol ydyw sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a rôl polisïau cymdeithasol a chyhoeddus wrth ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn CASE brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n ymdrin â thystiolaeth yn y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol.

Atodiad i gael manylion am fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd gan WCPP fel rhan o'i gwaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan CASE, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a chyfeiriad tldi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a'r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad go iawn (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd WCPP hefyd y Sefydliad Polisi Newydd i gynnal adolygiad o strategaethau lliniaru tldi rhyngwladol (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thldi.

Cyflwyniad

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bolisiau sy'n hyrwyddo fforddiadwyedd tai yn y sector rhentu preifat a chymdeithasol ac, yn benodol, ar bolisiau ochr gyflenwi, y gall cymhariaeth rhyngwladol fod yn arbennig o ddefnyddiol ar eu cyfer. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar bolisiau **sy'n cefnogi 'model deuolaidd' (e.e. hybu perchentyaeth; cyfyngu ar fynediad at dai cymdeithasol) a pholisiau sy'n cefnogi 'model marchnad gymdeithasol' (e.e. rheoleiddio a rhoi cymhorthdal i'r sector rhentu preifat; ehangu mynediad at dai cymdeithasol).**

Yn unol â gweddill y Deyrnas Unedig, mae Cymru wedi gweld twf yn y sector rhentu preifat a gostyngiad mewn tai cymdeithasol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf – tyfodd y cyntaf o 7% yn 2001 i 14% yn 2019 (JRF, 2020), gostyngodd yr olaf o 20% ym 1997 i 16% yn 2019 (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019). Er bod maint y sector rhentu cymdeithasol wedi aros yn gymharol sefydlog dros y deng mlynedd diwethaf, mae ei gyfansoddiad wedi newid. Rhwng 2009 a 2017, gostyngodd gyfran y tai cymdeithasol sy'n eiddo i awdurdodau lleol o 8% i 6% tra cynyddodd y gyfran sy'n cael eu rhentu oddi wrth Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o 8% i 10%. Mae hyn yn bennaf oherwydd y trosglwyddiadau gwirfoddol ar raddfa fawr o stoc o awdurdodau lleol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Er bod awdurdodau lleol wedi rhoi'r gorau i adeiladu i bob pwrpas yng nghanol y degawd diwethaf, ailddechreuodd hynny'n ddiweddar wrth i awdurdodau lleol gwblhau 138 o adeiladau newydd rhwng 2017 a 2019. Yn ystod yr un degawd, mae 9,789 o anheddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd wedi cael eu cwblhau. Mae cyfran gyffredinol y tai cymdeithasol a'r gyfran sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn debyg i'r rhai yn Lloegr, tra bod gan yr Alban sector tai cymdeithasol mwy (22%), ac mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon gyfran fwy o dai sy'n eiddo i awdurdodau lleol (12%) (Ystadegau ar gyfer Cymru,

2019a; Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019). Dros yr un cyfnod, gostyngodd berchenfeddiannaeth o 76% yn 2001 i tua 70% yn 2019, gan aros yn sefydlog ers 2012.

Mae prisiau tai wedi bod yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig (gan 16.7% dros y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2021), gan gadarnhau tuedd gynyddol mai dim ond ym mhrisiau tai cyfartalog y mae Cymru wedi dod y tu ôl i Loegr ers 2015 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021a). Yn y cyfamser, mae cynnydd mewn enillion wedi llusgo y tu ôl i brisiau tai (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b). Er bod hyn yn awgrymu bod fforddiadwyedd wedi gwaethgu yng Nghymru yn gyffredinol, mae anheddau newydd wedi parhau i fod yn llai fforddiadwy gyda chymhareb o brisiau tai i enillion 44% yn uwch ar gyfer anheddau newydd nag ar gyfer anheddau presennol. Erys gwahaniaethau ar draws ardaloedd, gyda phrisiau canolrifol yn amrywio o £46,250 (yn Rhondda Cynon Taf) i £600,000 (yng Nghaerdydd) (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021c).

Nodwyd bod costau tai yn cyfrannu'n allweddol at y costau byw cynyddol sy'n ysgogi tlodi yng Nghymru (JRF, 2018; 2020). Ymhlith y pumed tlotaf o oedolion o oedran gweithio, roedd 42% yn gwario mwy na thraean o'u hincwm ar dai – cynnydd o 36% yn 1994-97 (JRF, 2018). Er gwaethaf cynnydd araf mewn rhent preifat ac amseroedd gostyngiadau go iawn mewn costau tai dros y deng mlynedd diwethaf, mae cyfraddau tlodi ymhlith rhentwyr preifat yn parhau i fod yn uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, sef tua 41% (JRF, 2020). Hefyd, mae rhentwyr preifat yn fwy tebygol o gael eu gorlwytho â chostau tai o gymharu â deiliadaethau eraill: mae 39% yn gwario dros draean o'u hincwm ar dai (JRF, 2018). Yn ystod y pandemig Coronafeirws, cynyddodd prisiau rhentu preifat 1.5% yng Nghymru yn y 12 mis hyd at fis Mai 2021, sef cyfradd uwch o gynnydd nag yn Lloegr a'r Alban ond yn is nag yng Ngogledd Iwerddon (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021b).

Mae tenantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi o gymharu â rhentwyr preifat a pherchen-feddianwyr, gyda chyfradd tlodi yn sefydlog ar tua 48% ers 2016 (Llywodraeth Cymru, 2021) – lefel sy'n llawer uwch nag unrhyw un o wledydd eraill y Deyrnas Unedig (JRF, 2020). Mae tenantiaid tai cymdeithasol hefyd yn anghymesur o fwy tebygol o fyw mewn amddifadedd materol (46%) o gymharu â rhentwyr preifat (31%) a pherchen-feddianwyr (7%) (Carter, 2022a). Ledled y Deyrnas Unedig, mae tystiolaeth yn dangos mai pobl ifanc yw'r rhai sy'n teimlo effaith disbyddiad y stoc tai cymdeithasol fwyaf. Ym 1997, roedd 15.3% o bobl ifanc 20–34 oed yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol (ac eithrio'r rhai a oedd yn byw yng nghartref rhent cymdeithasol eu rhieni), ond yn 2017 dim ond 10.1% (tua 680,000 o bobl ifanc) oedd yn byw yn eu tŷ rhent cymdeithasol eu hunain (Mulheirn, 2019). Mae llai o fynediad at y sector rhentu cymdeithasol yn golygu bod pobl ifanc yn gorfod dewis rhwng talu rhenti'r farchnad neu aros yn nhŷ eu rhieni. O ganlyniad,

mae rhentwyr cymdeithasol yn hŷn na rhentwyr preifat ar gyfartaledd (52 oed o gymharu â 40 oed yn y sector rhentu preifat), ond yn iau na pherchen-feddianwyr (57 oed) (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019b).

Cyd-destun polisi

Mae darparu tai fforddiadwy wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Deëllir bod hyn yn cynnwys tai rhent cymdeithasol, yn ogystal â thai â phrisiau neu renti sy'n uwch na phrisiau rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau a rhenti'r farchnad, ac yn cynnwys unedau tai a ddarperir o dan gynlluniau a allai arwain at berchnogaeth lawn (e.e. rhanberchnogaeth, Cymorth i Brynu) (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2021). Mae Cymru wedi darparu 80% o gartrefi newydd am brisiau rhent cymdeithasol gwirioneddol fforddiadwy, o gymharu â dim ond 11% yn Lloegr (UKHR, 2020). Mae ansawdd tai cymdeithasol wedi gwella yn ystod y degawd diwethaf hefyd gan fod 92% o dai cyngor yn cydymffurfio'n gyffredinol â Safonau Ansawdd Tai Cymru yn 2019, o gymharu â dim ond 40% yn 2013 (UKHR, 2021). Rhwng 2007 a 2019, gwerthwyd 3,619 o anheddau cymdeithasol drwy'r cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael – cyn i'r Hawl i Brynu gael ei diddymu (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019b). Roedd y rhan fwyaf o werthiannau tai cymdeithasol drwy'r cynlluniau hyn, a oedd yn cyfrif am 69% o werthiannau yng Nghymru yn 2017/18 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019).

Mae Adolygiad Tai'r Deyrnas Unedig 2021 yn dangos mai Cymru a gofnododd yr allbwn uchaf o 2,940 o dai fforddiadwy yn 2019/20 ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig, gyda 3,100 yn weddill ar gyfer 2020/21 i gyrraedd y targed o 20,000 o dai fforddiadwy (Stephens et al., 2021). Fodd bynnag, mae'r perfformiad hwn yn cynnwys 8,503 o gartrefi Cymorth i Brynu, sydd allan o gyrraedd llawer o aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gallu fforddio perchen ar gartref (Stephens et al., 2021). Mae tystiolaeth dda nad yw Cymorth i Brynu yn gynllun blaengar (Bucelli, McKnight a Summers, 2020; Provan et al., 2017; Stephens, 2021) ac er ei fod yn cyfrif am gyfran fawr o fuddsoddiad cyhoeddus, nid yw'n hybu perchentyaeth ymhlith aelwydydd incwm isel ac mae'n cynhyrchu difuddiant. Er enghraifft, mae Finlay et al. (2016) yn amcangyfrif y byddai 35% o dderbynwyr wedi prynu cartref tebyg heb y cymhorthdal. Yn gyffredinol, mae lefel yr angen yn dal i fod yn uwch na'r cyflenwad – amcangyfrifodd Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (Pamment et al., 2019) fod angen rhwng 3,000 a 3,900 o dai fforddiadwy bob blwyddyn, sy'n uwch na'r lefelau cyflenwi presennol.

Mae nifer o offerynnau polisi ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae'r Grant Cyllid Tai yn gynllun cymhorthdal refeniw i ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru sy'n ceisio cynyddu cyfanswm buddsoddiad cyfalaf £250 miliwn ac mae'n ddewis amgen yn lle grantiau cyfalaf. I gefnogi'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru, lansiwyd y Rhaglen Tai Arloesol yn 2017, ac mae'r cylch presennol yn canolbwyntio ar Ddulliau Adeiladu Modern i gynyddu graddfa a chyflymder y ddarpariaeth tai cymdeithasol. At

hynny, er bod gan Gymru lai o reolaeth dros Daliadau Tai Dewisol (DHP) nag yn yr Alban, gall awdurdodau lleol ddefnyddio DHP i gefnogi teuluoedd sy'n cael trafferth gyda chostau tai – er bod JRF (2020) yn nodi bod ymwybyddiaeth yn isel. Mae Grant Caledi Tenantiaeth yn canolbwyntio ar gynorthwyo aelwydydd a brofodd galedi ariannol yn ystod y pandemig Coronafeirws ac mae ar gael ochr yn ochr â DHP ar gyfer rhentwyr sy'n mynd i ôl-ddyledion. Fodd bynnag, er ei fod yn darparu rhyddhad ar unwaith, nid yw'r benthyciad yn lleddfu baich dyled gynyddol i'r rhai sydd mewn ôl-ddyledion (gweler yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar ddyled aelwydydd am drafodaeth ar ôl-ddyledion dyledion).

Mae ffactorau cyd-destunol eraill yn cynnwys codi Cap Benthycia'r Cyfrif Refeniw Tai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2018, ac fe'i codwyd i bob pwrpas yng Nghymru yn 2019. Gall hyn hybu'r cyfleoedd sydd ar gael i awdurdodau lleol gefnogi'r gwaith o ddarparu cyflenwad tai fforddiadwy newydd. Fodd bynnag, nid oedd pob awdurdod lleol yn manteisio i'r eithaf ar eu gallu i fenthycia cyn i'r cap gael ei godi ac mae rhwystrau'n parhau, er enghraifft ar ffurf sicrwydd ariannu tymor canolig/tymor hir, y sgiliau a'r capasiti sydd ar gael, ac argaeledd tir (Pamment et al., 2019). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn weithgar ym maes polisi rhent ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, gyda lefelau rhent wedi'u pennu ar CPI+1% fel y cynnydd uchaf a ganiateir ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae argaeledd tai, costau, ansawdd, lleoliad a sicrwydd yn ffactorau a all waethygu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Gall tai chwarae rôl ataliol a lleddfoll mewn perthynas â thlodi, ond mae'r graddau y mae hyn yn bosibl yn dibynnu ar y cydbwysedd rhwng y cyflenwad tai a'r galw, effaith cyfraddau llog morgais, darpariaeth tai cymdeithasol, polisiâu sy'n rheoleiddio fforddiadwyedd y sector rhentu preifat, yn ogystal â pholisiâu nawdd cymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar gostau tai a'r incwm gwario sydd ar gael i deuluoedd. Mae ffactorau'r farchnad lafur, cyfansoddiad aelwydydd, newidiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chostau tai cynyddol i gyd yn rhan o'r darlun sy'n golygu nad yw incwm o gyflogaeth yn ddigonol i godi incwm aelwydydd uwchlaw'r llinell dlodi i lawer. Mae costau tai cynyddol ymhlith aelwydydd incwm isel hefyd wedi arwain at fwllch cynyddol rhwng mesurau tlodi incwm cyn ac ar ôl costau tai (Yang, 2018).

Mae tai yn effeithio ar amrywiaeth o agweddau ar allgáu cymdeithasol. Ar y naill law, mae tai annigonol yn fath o amddifadedd materol ynddo'i hun, ac oherwydd bod tai'n cael eu dosbarthu'n bennaf yn unol ag adnoddau economaidd, mae tai cymdeithasol

yn ffordd bwysig o sicrhau bod gan aelwydydd difreintiedig fynediad at anheddau gweddus. Ar y llaw arall, mae tai o ansawdd gwael yn effeithio ar amrywiaeth o ganlyniadau iechyd a lles goddrychol (WHO, 2018; WHO Ewrop, 2007; Marmot, 2010; Clapham et al., 2018). Mae ansawdd a sefydlogrwydd tai yn gysylltiedig â chanlyniadau addysg: mae amgylchedd annigonol i astudio a symudiadau mynych niweidiol, sy'n digwydd er enghraifft o ganlyniad i gostau tai na ellir eu rheoli, yn ei gwneud yn anos cynnal addysg (Mueller a Tighe, 2007; Brennan et al., 2014). Gallant hefyd effeithio ar gyfranogiad cymdeithasol, oherwydd gall tai o ansawdd gwael gynyddu ynysu cymdeithasol ac amharodrwydd i wahodd ffrindiau a theulu gartref, tra gall ansefydlogrwydd amharu ar rwydweithiau cymdeithasol. Mae'r rhain hefyd yn hanfodol ar gyfer sianeli recriwtio anffurfiol (Gibb et al., 2016), tra bod canlyniadau iechyd negyddol yn effeithio ar berfformiad a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae gwahanu daearyddol cynyddol yn adlewyrchu gallu cynyddol aelwydydd incwm uwch i wneud cynigion uwch nag aelwydydd incwm is wrth gael mynediad at well opsiynau tai mewn cymdogaethau mwy 'dymunol' (Musterd et al., 2017). Gall hyn yn ei dro leihau gallu aelwydydd difreintiedig i gael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd, ac fe all amlygu'r aelwydydd hyn i amgylcheddau â rhinweddau annymunol eraill (e.e. cyfraddau troseddu uchel, llygredd). Mae gwahanu, ynghyd â'r caledi a brofir gan deuluoedd incwm isel sy'n cael eu gorlwytho â chostau tai ac sy'n byw mewn amgylcheddau o ansawdd isel, yn ymwreiddio anfantais ar draws cenedlaethau.

Fodd bynnag, gallai tai fforddiadwy, sicr o ansawdd da, mewn marchnad swyddi iach wneud cyfraniad sylweddol at gynyddu incwm gwario, atal amddifadedd materol a chynnal cymhellion gwaith. Er enghraifft, ceir tystiolaeth bod y sector rhentu cymdeithasol wedi cyflawni'r swyddogaeth hon yn hanesyddol, gan leihau maglau tlodi o gymharu â'r sector rhentu preifat (Tunstall et al., 2013).

Gellid ystyried amrywiaeth o bolisiâu mewn perthynas â'r agweddau hyn, e.e.:

- Buddsoddi yn y cyflenwad tai cymdeithasol;
- Rheoliadau rhent;
- Cymorthdaliadau ar ochr y galw (e.e. lwfansau tai); a
- Pholisiâu i gynyddu perchentyaeth ar ben isaf y dosbarthiad.

Fel y soniwyd uchod, mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar bolisiâu ar yr ochr gyflenwi, y gall cymhariaeth ryngwladol fod yn arbennig o ddefnyddiol ar eu cyfer. Mae llai o wariant cyhoeddus ar fesurau tai ar ochr y cyflenwad a mwy o wariant cyhoeddus ar fesurau ar ochr y galw yn ffenomenon dra chyfarwydd yn yr Undeb

Ewropeaidd, er enghraifft, ac yn un sydd wedi'i chysylltu â heriau o ran hyrwyddo mynediad at dai fforddiadwy (Caturianas et al., 2020).

Y berthynas â phrofiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Gall ansicrwydd tai, tai o ansawdd gwael a'r anallu i dalu costau tai parhaus effeithio'n ddifrifol ar iechyd corfforol a meddyliol (Pevalin et al., 2008; 2017; Singh et al., 2019). Gallant sbarduno teimladau o fethiant personol, embaras, arwahanrwydd, ansicrwydd a diffyg rheolaeth dros agwedd allweddol ar fywyd pob dydd. A hwythau wedi'u llethu gan gostau tai uchel, mae aelwydydd yn troi at strategaethau ymdopi sy'n gwaethygu ffactorau risg mewn amrywiaeth o feysydd a archwiliwyd mewn adolygiadau eraill (e.e. dyled aelwydydd, ansicrwydd bwyd, tlodi tanwydd). Gall yr heriau hyn greu mwy o densiynau o fewn teuluoedd, a phan fydd ansicrwydd difrifol yn arwain at ddadleoli gorfodol, gall hynny arwain at golli rhwydweithiau cymdeithasol hanfodol yn llwyr.

Gallai gwledydd sydd wedi bod yn hyrwyddo perchentyaeth fel sefyllfa arferol, fel y Deyrnas Unedig, weld dyheadau deiliadaeth penodol. Mae ymchwil yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar brofiadau pobl ifanc dosbarth canol, y tybiwyd bod disgwyliad uwch iddynt berchen ar dai na grwpiau mwy difreintiedig (Preece et al., 2020). Mae perchentyaeth yn debygol o greu teimlad cryfach o ddiogelwch, er enghraifft o gymharu â rhentu preifat, ond ni ymchwiliwyd yn drylwyr i'r ffordd y mae tueddiadau deiliadaeth tai sy'n newid yn llywio disgwyliadau a dyheadau. Ar yr un pryd, mae tystiolaeth bod cysylltiadau a ganfuwyd, er enghraifft, rhwng gwahanol fathau o ddeiliadaeth a chanlyniadau iechyd meddwl yn cael eu llywio'n bennaf gan y ffaith bod gwahanol ddeiliadaethau'n gwasanaethu poblogaethau sy'n profi gwahanol lefelau o anfantais; ac nid yw'n debygol y bydd y math o dai ynddo'i hun yn sbardun i ganlyniadau iechyd meddwl (Baker et al., 2012). Mae hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai aelwydydd incwm isel sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain barhau i brofi canlyniadau iechyd a lles gwaeth oherwydd y diffyg amddiffyniad a gynigir gan dai cymdeithasol, tra eu bod hefyd o bosibl yn cael eu llethu gan forgeisi anfforddiadwy (Beer et al., 2011).

Ar yr un pryd, dangosir bod rhentu preifat yn cael effaith emosiynol sylweddol ar denantiaid incwm isel (McKee, 2019). Adlewyrchir amddiffyniadau cyfreithiol cyfyngedig o fewn y sector rhentu preifat yn wahanol ym mhrofiadau tenantiaid yn dibynnu ar sut mae ansicrwydd ynghylch tai yn cyd-fynd â ffactorau risg mewn meysydd eraill o fywyd, megis:

- Mae pobl sy'n wynebu cyflogaeth ansicr yn profi mwy o straen a heriau;
- Adnoddau cyfyngedig sy'n gofyn am ddewisiadau anodd wrth dorri gwariant hanfodol;

- Diffyg dewisiadau amgen oherwydd cyfrifoldebau gofalu; ac
- Incwm ansicr sy'n gysylltiedig â thoriadau i nawdd cymdeithasol.

Mae tystiolaeth sy'n archwilio safbwynt pobl sydd wedi profi digartrefedd (Uscreates, 2018) yn dangos pryderon eang ynghylch annigonolrwydd rhwyd ddiogelwch y Deyrnas Unedig, yn enwedig gan fod diffygion mewn taliadau sy'n gysylltiedig â thai o fewn Credyd Cynhwysol, o gymharu â chostau tai, yn achosi tensiwn rhwng tenantiaid a landlordiaid. Yn y sector rhentu preifat, mae tenantiaid sy'n agored i niwed yn ymwybodol o'r diffyg amddiffyniad cyfreithiol sy'n gysylltiedig â rheoleiddio isel a sicrwydd deiliadaeth. Fe allent ymatal rhag rhoi gwybod am dai annigonol rhag ofn y bydd landlordiaid yn cynyddu'r rhent neu'n eu troi allan drwy ddefnyddio 'troi allan heb fai' (Cyngor ar Bopeth Cymru, 2017). Yn hytrach, mae'r rhai sydd â mwy o adnoddau economaidd a chyflogaeth sicr sy'n talu'n well yn debygol o fod yn llai agored i'r ansicrwydd yn y system oherwydd eu bod yn gallu ymdopi'n well ag ysgytwadau a fyddai'n mynnu bod rhaid iddynt ddod o hyd i lety amgen. Efallai nad yw'r ansicrwydd yn y sector o fawr ddim pryder i weithwyr proffesiynol ifanc yn arbennig, a gall y sector rhentu preifat fod yn ddeiliadaeth o ddewis, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd o gymharu â pherchentyaeth (Morris et al., 2017).

Ar yr un pryd, mae corff sylweddol o ymchwil sy'n archwilio sut mae crebachiad y sector rhentu cymdeithasol, a'r gwahanu cynyddol sy'n deillio o hynny, yn ymwreiddio profiadau trigolion o ymleiddio a stigma (Lupton, 2004; Wassenberg, 2004). Gall tai sefydlog o ansawdd da helpu i liniaru effeithiau tlodi (JRF, 2018) a chanfuwyd bod gan dai rhent cymdeithasol botensial sylweddol fel ffynhonnell gymorth i'r rhai ar incwm isel. Fodd bynnag, dangosodd tystiolaeth o brofiad byw fod y sector hwn wedi'i blagio gan dai o ansawdd gwael a diffyg stoc tai (JRF, 2018).² Mae'r profiadau hyn yn aml yn cyd-fynd â'r rhai o gywilydd sy'n cael eu cysylltu'n fwy cyffredinol â thlodi a chyda'r stigma penodol sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau (Walker et al., 2013). Yn aml, bydd gan bobl mewn ardaloedd cyfagos syniadau negyddol ac ystrydebol o drigolion yn yr 'ystadau difreintiedig' a'r cymdogaethau hyn, a dangoswyd bod y cyfryngau ehangach yn parhau â'r naratifau hyn ac yn stigmatiddio cynrychiolaethau o bobl sy'n byw yn y sector (Shildrick, 2018; Slater, 2018; Hastings, 2004). Weithiau, mae trigolion yn rhannu'r syniadau negyddol hyn, ond gallant hefyd gymryd camau gweithredol i herio'r stereoteipiau hyn, gyda chefnogaeth grwpiau cymunedol lleol a chyfryngau cymunedol (Hastings, 2004).

² Mae Provan a Power (2018) yn nodi bod Hawl i Brynu nid yn unig wedi lleihau faint o eiddo dymunol sydd ar gael yn y sector rhentu cymdeithasol, ond hefyd wedi cynyddu'r stigma sydd ynghlwm wrth fod yn denant tai cymdeithasol.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

Ymyrraeth	Cryfder y dystiolaeth	Effeithiolrwydd
Polisiau sy'n cefnogi 'model deuolaidd' (e.e. hybu perchentyaeth; cyfyngu ar fynediad at dai cymdeithasol)	Da	Effeithiolrwydd cyfyngedig (sy'n gysylltiedig â swyddogaeth rhwyd ddiogelwch is mewn sector cymdeithasol sy'n crebachu)
Polisiau sy'n cefnogi 'model marchnad gymdeithasol' (e.e. rheoleiddio a chymorthdalur sector rhentu preifat; ehangu mynediad at dai cymdeithasol)	Da	Effeithiol (ond yn heriol i'w gweithredu mewn cyd-destunau a nodweddir gan lefelau uchel o dlodi ac anghydraddoldeb)

Ceir llenyddiaeth gymharol ryngwladol gyfoethog sy'n archwilio gwahanol gyfundrefnau tai. Mae pryderon diweddar am farchnad dai'r Deyrnas Unedig wedi bod yn destun nifer o gyhoeddiadau sy'n defnyddio cymariaethau rhyngwladol (Shelter, 2018; Stephens, 2019; Whitehead a Scanlon, 2007; Scanlon a Kochlan, 2011). Mae'r llenyddiaeth hon yn aml yn dosbarthu system y Deyrnas Unedig fel 'cyfundrefn ddeuol' (Kemeny, 2006), lle:

- Cefnogir perchentyaeth drwy gymorthdaliadau a thriniaeth gyfreithiol ffafriol;
- Nid yw'r sector rhentu preifat yn cael ei gymorthdalur ac nid yw rhenti'n cael eu rheoleiddio; ac
- Mae mynediad at y sector rhentu cymdeithasol wedi'i gyfyngu i grwpiau difreintiedig ac mae ei faint yn cael ei reoli gan y llywodraeth, gyda chyfyngiadau ar fenthyca a chymorthdaliadau cyhoeddus.

O gymharu, mae gan wledydd sy'n cael eu dosbarthu fel rhai sy'n dod o dan gyfundrefn 'unedol' (e.e. yr Iseldiroedd, Denmarc, yr Almaen, Sweden, Awstria a'r Swistir):

- Gyfraddau is o berchentyaeth;

- Tenantiaethau cymdeithasol nad ydynt yn cael eu dyrannu'n llym ar sail modd;
- Sector rhentu preifat sy'n cael ei reoleiddio'n ddwys mewn llawer o achosion, a'i gymorthdalau weithiau (e.e. yn yr Almaen a Sweden), fel bod datblygwyr yn darparu tai ar gyfradd is-farchnad y cytunwyd arni ymlaen llaw yn gyfnewid am gymhorthdal buddsoddi cyhoeddus.

Mae'r adrannau nesaf yn archwilio effeithiolrwydd polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y modelau hyn mewn perthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

Polisïau sy'n cefnogi systemau tai 'deuolaidd'

Yn y Deyrnas Unedig, **nid yw tai rhent preifat** yn cael eu trin yn ffafriol o ran trethi a chymorthdaliadau o gymharu â gwledydd eraill (Whitehead, 2016; 2018). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod polisïau'n canolbwyntio mwy ar hyrwyddo perchentyaeth. Gall costau tai uwch sy'n gysylltiedig â'r sector rhentu preifat (JRF, 2020) ei gwneud yn anos i aelwydydd incwm isel gronni asedau a allai eu cynorthwyo drwy ysgytwadau i'w hincwm yn ddiweddarach mewn bywyd. Mewn astudiaeth gymharol ar draws gwledydd Ewrop, dangosodd Clair et al. fod ansefydlogrwydd tai yn gyson uwch ymhlith rhentwyr preifat na pherchnogion ym mhob gwlad. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol mewn gwledydd, ac er bod y sgôr ansicrwydd gymedrig yn y Deyrnas Unedig ddwywaith mor uchel i rentwyr preifat na pherchnogion, mae'r bwlch rhwng y grwpiau hyn yn llai mewn rhai gwledydd. Mewn rhai gwledydd, mae lefel yr ansicrwydd ymhlith rhentwyr preifat yn is na'r lefel ymhlith perchnogion mewn gwledydd eraill. Mae tystiolaeth yn dangos, felly, y gall rhentu fod yn fath llai ansicr o ddeiliadaeth nag ydyw ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar y polisïau sy'n ei reoleiddio a'i gefnogi.

Nid yw **perchentyaeth** yn ateb i ansicrwydd a thlodi (Clair et al., 2019, Searle a Köppe, 2014; Wallace et al., 2018). Mae pobl sy'n berchen ar eu cartrefi'n llwyr a pherchnogion sydd â morgeisi yn wynebu risgiau gwahanol mewn perthynas â dyled a thlodi, tra bod perchnogion tai incwm isel yn aml yn methu â buddsoddi yn eu cartrefi ac mae eu cartrefi'n fwy tebygol o fod mewn cyflwr gwael nag, er enghraifft, tenantiaid tai cymdeithasol (Wallace et al., 2018). At hynny, ar draws gwledydd yr OECD, mae manteision mesurau fel didyniadau llog morgais a rhyddhad treth yn cronni ymhlith aelwydydd incwm uwch, a dangosir eu bod yn cael effaith niweidiol ar fforddiadwyedd tai, yn enwedig mewn gwledydd sydd â chyflenwad tai anhyblyg neu gyfyngedig (Andrews a Caldera Sanchez, 2011).

At hynny, mae tystiolaeth gymharol (OECD, 2020a; Salvi del Pero et al., 2016) hefyd yn dangos bod polisïau i hwyluso perchentyaeth, er enghraifft drwy gymorthdaliadau (e.e. grantiau neu fenthyciadau) i **brynwyr tro cyntaf** yn rhoi cymorth i bobl a fyddai wedi gallu prynu cartref *heb* y cymhorthdal – mae hyn yn adlewyrchu asesiad o gynlluniau fel Cymorth i Brynu yn y Deyrnas Unedig (Provan et al., 2017; Crisp et al., 2017). Yn gyffredinol, mae cynlluniau rhannu ecwiti a rhanberchnogaeth yn fwy blaengar ac yn cyrraedd aelwydydd mwy difreintiedig (OECD, 2020a). Canfu Wang et al. (2019) fod cynlluniau rhannu ecwiti yn yr Unol Daleithiau yn gallu darparu tai sefydlog a llwybr fforddiadwy tuag at berchentyaeth ar gyfer aelwydydd incwm is. Mae'r modelau hyn yn cynrychioli cyfran fach iawn o'r stoc tai ym mhob gwlad lle maent yn bresennol, ac felly mae lle i ehangu. Fodd bynnag, yn y Deyrnas Unedig, mae pryderon wedi dod i'r amlwg ynghylch rhanberchnogaeth a'r heriau sy'n wynebu pobl sydd ar ei hôl hi o ran eu taliadau rhent, sy'n cael eu llethu gan gostau fel rhent tir a thaliadau gwasanaeth, ac yn wynebu problemau wrth brynu cyfrannau pellach er mwyn perchen ar gyfran uwch o'u heiddo.

Yn gyffredinol, o safbwynt mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol, gall dulliau polisi sy'n blaenoriaethu perchentyaeth fod yn broblemus nid yn unig am fod y rhan fwyaf o **gynlluniau wedi'u targedu'n wael, ond oherwydd y gallant, mewn gwirionedd, waethygu problemau gyda fforddiadwyedd tai**, cynyddu'r galw a chyfrannu at brisiau tai uwch ac ansefydlogrwydd, gan **wthio allan cymorth ar gyfer mathau eraill o dai**, o bosibl, drwy gyfrif am gyfran sylweddol o wariant y llywodraeth (OECD, 2020a).

Mae'r sector rhentu cymdeithasol wedi crebachu yn ystod y degawdau diwethaf mewn llawer o wledydd heb fawr o eithriadau (OECD, 2020b). Mewn system ddeuolaidd fel yn y Deyrnas Unedig, mae tystiolaeth y bu'r sector rhentu cymdeithasol yn elfen arbennig o effeithiol o'r wladwriaeth les ac wedi lliniaru effeithiau lefelau uchel o dlodi incwm (Stephens a Leishman, 2017; Bradshaw, 2008; Tunstall et al., 2013). Roedd y sector rhentu cymdeithasol mawr yn gweithredu fel 'rhwyd ddiogelwch', gan ddarparu safon ddigonol o dai a sicrwydd, a diogelu lefel ofynnol o incwm gwario (Fitzpatrick a Pawson, 2014). Fodd bynnag, mae gwledydd y Deyrnas Unedig wedi symud i gyfeiriadau gwahanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan fod Lloegr, yn arbennig, wedi symud oddi wrth rwyd ddiogelwch i 'fodel ambiwlans' o dai (Stephens, 2019), lle mae tai cymdeithasol yn cael eu hystyried yn 'lloches dros dro' mewn argyfyngau (Hills, 2015, 133).

Mae angen sector rhentu cymdeithasol mawr er mwyn iddo weithredu fel rhwyd ddiogelwch, ond mewn gwirionedd mae llai o dai newydd wedi cael eu hadeiladu ac mae'r stoc wedi cael ei lleihau, tra bod polisi dyrannu wedi gweld mwy o dargedu, a chyflwyno deiliadaethau cyfnod penodol sy'n lleihau sicrwydd. Er bod gweinyddiaethau datganoledig, gan gynnwys Cymru, wedi gweithredu i gadw model

rhwyd ddiogelwch ac mae'r Alban wedi cymryd camau i'w chryfhau (Stephens, 2019), mae'r duedd hon yn gyffredin i systemau deuolaidd eraill, megis yr Unol Daleithiau, Canada, Seland Newydd neu Awstralia, lle mae diwygiadau, er enghraifft, wedi arwain at roi terfyn ar sicrwydd deiliadaeth a chynnyddu'r crynodiad o aelwydydd difreintiedig yn y sector (Fitzpatrick a Pawson, 2014; Stephens, 2008; Murphy, 2020).

Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod tai rhent cymdeithasol mewn systemau **deuolaidd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu llety sefydlog, diogel a fforddiadwy. Er mwyn i'r sector gyflawni'r swyddogaeth hon, dylid gwrthsefyll tueddiadau tuag at gwtogi tai cymdeithasol a dylid rhoi blaenoriaeth i hybu darpariaeth tai cymdeithasol, gan ddarparu sicrwydd deiliadaeth a gwella ansawdd.** Mae llawer o wledydd 'deuolaidd' wedi gweld mwy o gefnogaeth i ymyriadau ochr gyflenwi, er enghraifft gyda chynlluniau sydd â'r nod o wella'r cyflenwad o dai fforddiadwy drwy ddarparwyr di-elw. Yn Awstralia, mae darparwyr tai cymunedol y trydydd sector wedi bod yn dod i'r amlwg ond mae eu rôl a'u gallu i ehangu yn parhau i fod yn gyfyngedig (Pawson et al., 2019). Yn ddiweddar, mae cynllun rhent costau wedi cael ei dreialu yn Iwerddon (gweler Astudiaeth Achos 1).

Astudiaeth Achos 1: Cynlluniau rhent costau yn Iwerddon

Mae cynllun rhent costau wedi cael ei dreialu yn Iwerddon ers 2019. Mae'n cynnig tai di-elw, deiliadaeth sicr, hirdymor gyda rhenti a godir i dalu am y costau a ysgwyddir wrth ddarparu, rheoli a chynnal cartrefi yn unig. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, bydd angen rhyw fath o gymhorthdal i ddarparwyr fel arfer, e.e. darparu cyllid cost isel, mynediad ffafraethol i dir a gwarantau benthyciadau. Er nad yw'r cynllun wedi cael ei werthuso eto, mae asesiad gan yr OECD (2020) o'r math hwn o ddull seiliedig ar gostau yn dangos cryfderau a gwendidau mewn perthynas â'i effaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol. Ar y naill law, gallant wella cynaliadwyedd y sector drwy ystyried costau gwirioneddol datblygu, gweithredu a chynnal y stoc a gallant fod yn elfen o fodel 'fforddiadwyedd ehangach' drwy nodi costau gwirioneddol a dylanwadu ar y broses o ffurfio prisiau yn y farchnad rhentu preifat. Ar y llaw arall, efallai na fyddant yn darparu dewis amgen fforddiadwy gwirioneddol gan nad yw rhenti'n adlewyrchu gallu effeithiol aelwydydd i dalu. Efallai y bydd angen i bolisiau i leihau cost tir fod ar waith pan fydd prisiau tir yn uchel. Gellir cynllunio polisiau hefyd i ehangu'r agweddau ansawdd sy'n cael eu hystyried wrth bennu rhenti – er enghraifft, gan gynnwys agweddau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Gall hyn gyfrannu at oresgyn cyfyng-gyngor perchennog-denantiaid a chymhellion hollt a archwiliwyd yn yr adolygiad ar dlodi tanwydd (sef y ffaith bod landlordiaid, fel perchnogion eiddo, yn gyfrifol am dalu am

uwchraddio ond nad ydynt yn gallu adennill yr arbedion sy'n cronni i denantiaid drwy filiau ynni is).

Mae dulliau o 'gipio gwerth' drwy'r system gynllunio wedi cael eu cyflwyno mewn nifer o wledydd, ac mae arbrofi gyda 'pharthau cynhwysiant' (e.e. gofynion i gynnwys tai fforddiadwy o fewn datblygiadau preswyl arfaethedig) yn gyffredin (Calavita a Mallach, 2010). Mae llawer iawn o lenyddiaeth am barthau cynhwysiant sy'n tanlinellu llwyddiannau o ran cefnogi'r cyflenwad tai fforddiadwy (Gurran et al., 2018) a chyfnewidiadau, gan fod y polisiâu hyn yn peryglu cyfyngu ar y cyflenwad cyffredinol a chynyddu prisiau. Fodd bynnag, canfu nifer o astudiaethau lled-arbrofol (yn yr Unol Daleithiau yn bennaf) nad oedd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar y cyflenwad tai (Mukhija et al., 2010; Hamilton, 2021) yn enwedig pan gynigir gwrthbwysu costau fel cymhellion i ddatblygwyr sy'n cymryd rhan (Mukhija et al., 2015). Dangosir bod cynlluniau gwirfoddol a negodwyd ar lefel leol yn llai effeithiol wrth gynhyrchu unedau fforddiadwy (Hamilton, 2021). Mae'r dystiolaeth yn gymysg o ran eu potensial i leihau gwahanu a hyrwyddo integreiddio cymdogaeth (Rothwell a Massey, 2010; Kontokosta, 2014).

Modelau tai 'marchnad gymdeithasol'

Gellir gweld dull gwahanol o ddarparu tai mewn gwledydd sydd wedi cael eu cynnwys mewn 'cyfundrefn unedol' yn hanesyddol. Mae'r cymysgedd tai yn wahanol ar draws y gwledydd hyn (gweler Tabl 1). Er enghraifft, nodweddir yr Iseldiroedd gan sector tai cymdeithasol arbennig o fawr lle mae'r darparwyr yn gymdeithasau tai i raddau helaeth, tra bod gan yr Almaen sector rhentu preifat mawr, ond annodweddiadol hefyd (gweler Astudiaeth Achos 2). Mewn rhai gwledydd sydd â dull 'cyffredinol' cryf o ddarparu, fel Sweden, mae'r gwahaniaeth rhwng tai cymdeithasol a deiliadaethau eraill yn arbennig o aneglur (Scanlon et al., 2015). Yr hyn sydd o ddiddordeb mawr yn y gwledydd hyn yw **i ba raddau y mae eu system dai yn hwyluso'r hyn a ddiffiniwyd fel 'marchnad gymdeithasol'** (Stephens et al., 2003; Kemeny et al., 2007).

Tabl 1: Trosolwg o gyfrannau stoc tai yng ngwledydd dethol yr Undeb Ewropeaidd

Gwlad	Perchentyaeth	Rhentu preifat	Tai cymdeithasol	Nodiadau
Awstria	37%	30%	25%	17% cymdeithas dai elw cyfyngedig; 7% bwrdeistrefi

Gwlad	Perchentyaeth	Rhentu preifat	Tai cymdeithasol	Nodiadau
Denmarc	49%	26%	31%	
Yr Almaen	43%	45%	3%	5% tai cydweithredol; 5% tai bwrdeistrefol eraill (ar ôl y cyfnod cloi)
Yr Iseldiroedd	57%	13%	29%	
Sweden	41%	14%	17% (rhentu cyhoeddus)	24% tai cydweithredol
Y Swistir	37%	53%	3% (rhentu cyhoeddus)	5% tai cydweithredol
Cymru	70%	14%	16%	6% awdurdodau lleol, 10% landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

Ffynhonnell: Tai Ewrop (2021); Ystadegau ar gyfer Cymru, 2019a

Astudiaeth Achos 2. Tai rhentu preifat a chymdeithasol yn yr Almaen

Yn yr Almaen, y sector rhentu preifat yw'r 'opsiwn safonol' ymhlith pob rhan o'r boblogaeth. Mae tai cymdeithasol yn annodweddiadol yn yr Almaen hefyd: yn gyfnewid am gymorth ariannol cyhoeddus, mae datblygwyr tai yn cytuno i rentu eu hanheddau am bris fforddiadwy am gyfnod penodol o amser (tua 30 mlynedd yn draddodiadol). Wrth i'r cyfnod 'cloi' hwn ddod i ben, gellir codi rhenti'r farchnad. Yn ymarferol, fodd bynnag, pan nad yw perchnogion yn gwneud elw, fel cwmnïau cydweithredol neu dai bwrdeistrefol, mae rhenti'n aros yn is na lefel y farchnad.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o anheddau wedi dod i ddiwedd eu cyfnod 'cloi' na nifer yr unedau newydd sydd wedi cael eu hychwanegu, gan greu prinder. Yn y cyfamser, mae gostyngiad mewn cymorthdaliadau dros dro wedi gweld y sector tai cymdeithasol yn crebachu, ond mae hyn yn digwydd mewn marchnad rentu a reoleiddir yn feddal, gyda lefelau uchel o sicrwydd deiliadaeth. Yn wir, roedd diwygiadau rheoli rhent yn y 1970au wedi cydbwysu cyfyngu ar raddfa cynnydd mewn rhent a mwy o sicrwydd deiliadaeth gyda

mesurau sy'n annog buddsoddi yn y sector, fel triniaeth dreth hael i landlordiaid, y gallu i wrthbwysu colledion o weithgareddau landlordiaid yn erbyn incwm arall, a lwfans dibrisiant hael sy'n hybu'r gyfradd adenillion o incwm net.

Mae'r prif broblemau mewn dinasoedd y mae galw uchel amdanynt (fel Berlin), lle mae rhenti preifat yn fwyfwy anfforddiadwy ac mae anheddau'n brin (Poggio a Whitehead, 2017). Mae hyn wedi arwain at gyflwyno terfynau uchaf lleol ar gyfer rhent mewn ardaloedd lle y ceir pwysau uchel. Mae'r dystiolaeth ynghylch y mathau llymach hyn o reoli rhent mewn gwahanol gyd-destunau yn gymysg, ac mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at rai effeithiau negyddol posibl ar gyflenwad, symudedd, a deinameg mewnwyr/allanolwyr, lle mae'r rhai sy'n byw mewn eiddo sy'n sefydlog o ran rhent ac sy'n elwa o renti sy'n is na lefel y farchnad yn aros am gyfnod hwy o lawer na'r rhai mewn eiddo ar gyfradd rent y farchnad (Mense et al., 2019; Jenkins, 2009). Gan nad yw 'mewnwyr' o reidrwydd yn aelwydydd difreintiedig, nid yw rheoleiddio rhent yn llym yn cyflawni'r nodau dosbarthiadol y gobeithiwyd amdanynt.

Mewn marchnadoedd cymdeithasol, mae'r rhyngweithio rhwng tai rhent cymdeithasol a phreifat yn lleihau costau tai a gwahanu, gan ddangos y rôl allweddol y gall yr ymyriadau ochr gyflenwi hynny ei chwarae wrth hwyluso fforddiadwyedd tai ehangach (gweler Astudiaeth Achos 3). Mae dadansoddi'r systemau hyn yn tynnu sylw at rai elfennau allweddol sy'n eu cefnogi, er enghraifft mewn perthynas â pholisïau sy'n rheoli rhyddhau tir. Er enghraifft, caniateir i awdurdodau lleol yn yr Almaen gapio gwerthoedd tir ar brisiau cyn caniatâd ar yr adeg y rhoddir caniatâd cynllunio, gyda'r hawl i gaffael tir am gostau rhesymol a chasglu rhan o'r 'enillion cynllunio'. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â system y Deyrnas Unedig sydd o fudd mawr i'r tîrffeddiannwr ac yn rhagweld gweithdrefnau mwy cymhleth i sicrhau rhan o'r enillion cynllunio i helpu i ariannu tai cymdeithasol a seilwaith. I'r cyfeiriad hwn, mae galwadau diweddar i ddiwygio Deddf Digollediad Tir 1961 yn bwysig (HCLGC, 2018) gan y byddent yn caniatáu i'r cydbwysedd hwn newid a sicrhau bod arian ar gael i hybu seilwaith ac adeiladu tai fforddiadwy.

Astudiaeth Achos 3. Systemau 'marchnad gymdeithasol' yn Ewrop

Nodweddir systemau marchnad gymdeithasol mewn gwledydd canol Ewrop a Nordig (yr Almaen, Awstria, y Swistir, Denmarc, yr Iseldiroedd a Sweden) gan gyfrannau mawr o dai sydd ar osod am renti islaw cyfradd y farchnad, yn aml gan landlordiaid nad ydynt yn rhai gwladwriaethol, sefydliadau di-elw ac weithiau'n eiddo i awdurdodau lleol yn rhannol. Nid yw mynediad wedi'i

gyfyngu i'r mwyaf difreintiedig ac mae strwythurau rhent yn ymatebol i'r galw. Mae'r marchnadoedd rhentu integredig hyn (lle mae llai o wahaniaeth rhwng rhentu preifat a chymdeithasol) yn gweld rhentu cymdeithasol yn cystadlu am denantiaid yn erbyn landlordiaid elw, gan arwain at ostyngiad mewn rhenti gwirioneddol a rhestrau aros hirfaith ar gyfer tai rhent cymdeithasol, sy'n ysgogi cynnydd yn y cyflenwad.

Ceir tystiolaeth bod 'marchnadoedd cymdeithasol' integredig yn gyfystyr â safonau byw derbyniol ac yn cynhyrchu tai o ansawdd gwell (Borg, 2015). Mae anheddau o ansawdd da, rhenti fforddiadwy a sicrwydd deiliadaeth digonol yn denu grŵp eang, gan gynnwys aelwydydd gwell eu byd, gan wneud rhentu'n gystadleuol â pherchen-feddiannaeth ar yr un pryd â lleihau gwahanu. Mae hyn hefyd yn dangos bod systemau gwahanol yn gallu rheoli'r costau tai cynyddol sy'n gysylltiedig â thai rhentu preifat yn well, oherwydd bod 'marchnadoedd cymdeithasol' yn gallu cadw rhenti'n isel ar lefel systemig (Kemeny et al., 2007).

Mae angen ystyried y gallu i drosglwyddo'n ofalus, oherwydd mewn cyd-destunau a nodweddir gan lefelau uchel o dlodi ac anghydraddoldeb, efallai y bydd angen cyfyngu ar ddarpariaeth y sector rhentu cymdeithasol ryw ychydig er mwyn darparu rhwyd ddiogelwch ddigonol (Stephens et al., 2003). Serch hynny, gellir ystyried y fforddiadwyedd ehangach sy'n nodweddu'r systemau hyn fel nod tymor hir, sy'n gofyn am gyflenwad cynyddol o dai cymdeithasol o ansawdd da yn y tymor byr, ynghyd â chamau gweithredu yn y system nawdd cymdeithasol i ddarparu diogelwch cymdeithasol digonol.

Mae tystiolaeth gymharol wedi dangos y ffordd y mae **cyfundrefnau unedol a nodweddir gan fodel 'fforddiadwyedd ehangach' wedi chwarae rhan amddiffynnol yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang**. Mae Norris a Byrne (2017) yn cymharu Awstria, sydd â threfn unedol a nodweddir gan sector rhentu cymdeithasol mawr, gydag 80% o aelwydydd yn gymwys, ag Iwerddon, sydd â threfn ddeulaidd fel y Deyrnas Unedig. Mae awduron yn dangos bod cynnydd mewn adeiladu tai yn y sector cymdeithasol yn Awstria wedi helpu i liniaru effaith gostyngiad mewn allbwn tai preifat yn ystod yr argyfwng ariannol byd-eang. Mae cystadleuaeth rhwng y sector rhentu cymdeithasol a phreifat yn Awstria yn cyfrannu at leihau rhenti a chodi safonau. Mae fforddiadwyedd ac atyniad tai rhent yn Awstria hefyd yn golygu nad yw aelwydydd yn cael eu gwthio i berchentyaeth ymylol (perchentyaeth sy'n ansicr ac yn anghynaliadwy oherwydd lefelau uchel o ddyled) sy'n helpu i atal cylchoedd ffyniant/methiant yn y farchnad.

I'r gwrthwyneb, roedd sector tai cymdeithasol gweddilliol Iwerddon wedi sbarduno anwadalrwydd yn y farchnad dai preifat. Yma, roedd lefelau isel o ddarpariaeth tai cymdeithasol yn golygu bod angen gwariant cyhoeddus helaeth ar lwfansau tai ar gyfer aelwydydd rhentu preifat a oedd yn cynyddu'r galw ymhellach a chwyddo rhenti a phrisiau tai. At hynny, yn Awstria, roedd rôl cyllid preifat wrth ariannu'r sector tai cymdeithasol wedi atgyfnerthu ei wydnwch, ond yn Iwerddon (lle'r oedd cyllid ar gyfer tai cymdeithasol yn deillio bron yn gyfan gwbl o grantiau llywodraeth ganolog), roedd toriadau mawr o tua 80% yn yr allbwn tai cymdeithasol ar ddiwedd y 2000au wedi cynyddu breuder y sector. Fel y nodwyd uchod, mae Iwerddon wedi cyflwyno polisïau ochr gyflenwi i hybu'r math o gystadleuaeth rhwng y sector rhentu a pherchentyaeth sy'n nodweddu systemau unedol (gweler Astudiaeth Achos 1).

Nid yw cydnabod y gwahaniaethau hyn rhwng cyfundrefnau tai yn awgrymu anwybyddu'r ffordd y mae systemau tai wedi bod yn newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae systemau unedol wedi cael eu 'deuoli' i wahanol raddau: roedd rhai, fel yn yr Almaen, er eu bod yn gwyro oddi wrth eu model unedol hanesyddol, wedi gweld y sector rhentu yn cadw ei allu i gystadlu â pherchentyaeth (Stephens, 2020). Yn Awstria, mae'r sector tai cymdeithasol wedi cynnal ac, o bosibl, wedi cynyddu ei bwysigrwydd (Mundt, 2018). Mae swm, pris ac ansawdd tai cymdeithasol yn golygu eu bod yn gallu cystadlu â thai preifat.

Mae cymharu ar draws gwledydd Ewrop yn dangos bod graddau gweddilliol i'r sector rhentu cymdeithasol yn is mewn gwledydd y mae eu systemau dyrannu'n parhau i fod yn llai targedig ac yn dal i anelu at grwpiau incwm ehangach (Angel, 2019). Mewn gwledydd eraill fel Sweden a'r Iseldiroedd, mae deuoli'r system dai wedi bod yn fwy dramatig (Christopher, 2013; Hoekstra, 2017; Stephens, 2020). Dangosodd van Duijne a Ronald (2018) sut oedd deuoli cynyddol yn yr Iseldiroedd wedi effeithio ar amrywiaeth o ganlyniadau cymdeithasol. Gwnaethant archwilio'r rhain yn Amsterdam yn benodol, lle gostyngodd cyfraddau tai rhent cymdeithasol o bron i 60% yn 2000 i 44% yng nghanol y 2010au a chynyddodd perchentyaeth o 11% i 30% yn ystod yr un cyfnod. Dyfnhaodd wahanu a gwahaniaethau dosbarth o ran deiliadaeth, gyda mwy o begynu rhwng tai cymdeithasol a phreifat. Roeddent yn dangos bod tai rhent cymdeithasol yn cael eu gweddillio, gan danseilio eu rôl mewn perthynas â fforddiadwyedd tai, yr oeddent yn cyfrannu ato'n uniongyrchol (drwy ddarparu mynediad at dai cost isel i ran helaeth o'r boblogaeth) ac yn anuniongyrchol (drwy leddfu'r galw preifat a phrisiau rhentu preifat).

Mae polisi'r Undeb Ewropeaidd wedi dylanwadu ar bolisi tai mewn llawer o'r gwledydd hyn oherwydd, er bod tai cymdeithasol yn cael eu hystyried yn wasanaeth o ddiddordeb economaidd cyffredinol (SGEI) sy'n esempt rhag rheoleiddio cymorth gwladwriaethol, mae'r esemptiad hwn wedi'i gyfyngu i 'ddinasyddion difreintiedig neu grwpiau sy'n llai breintiedig yn gymdeithasol'. Mae hyn wedi ffurfio polisi diweddar

mewn gwledydd unedol, fel yr Iseldiroedd a Sweden lle'r oedd rheoleiddio SGEI yn gwrthdaro ag amodau cymhwysedd ehangach ar gyfer tai cymdeithasol, gan gyfrannu at gynyddu rhyddfrydoli a deuoli'r system dai yn y gwledydd hyn. Mae arbenigwyr wedi argymhell dileu'r targedu sy'n gysylltiedig ag esemptiad SGEI, gan gydnabod effeithiau ystumio cyfraith yr Undeb Ewropeaidd sy'n tanseilio'r farchnad gymdeithasol a swyddogaeth fforddiadwyedd ehangach y systemau hyn (Caturianas, 2020).

Heriau a ffactorau hwyluso

Ceir crynodeb o'r heriau a'r ffactorau hwyluso sy'n ymwneud â pholisïau sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol drwy hyrwyddo'r cyflenwad tai fforddiadwy yn Nhabl 2.

Tabl 2: Heriau a ffactorau hwyluso

Heriau	Ffactorau hwyluso
<ul style="list-style-type: none"> • Mae hybu'r cyflenwad tai yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, tra bod angen i wariant effeithlon oresgyn rhwystrau rhag adeiladu fel diffyg cymhellion i awdurdodau lleol a datblygwyr, neu adnoddau annigonol ar gyfer adrannau cynllunio awdurdodau lleol. • Nid yw'r system dai yn gweithredu ar wahân i'r system les ehangach. Mae twf araf cyflogau neu doriadau i nawdd cymdeithasol yn tanseilio ei swyddogaeth fel rhwyd ddiogelwch ac yn effeithio ar fforddiadwyedd tai. • Mae angen ymrwymiad gwleidyddol hirdymor er mwyn i newid systemig ddigwydd, tra gallai pwysau 	<ul style="list-style-type: none"> • Gellir manteisio i'r eithaf ar synergeddau rhwng tai fforddiadwy ac amcanion cynllunio eraill a allai gystadlu (e.e. cyfuno nodau amgylcheddol a thai fforddiadwy); pan fydd y nodau cynllunio eraill hyn yn rhwystr rhag datblygu tai fforddiadwy, dylid gwerthuso ffyrdd o wrthbwysio effeithiau negyddol. • Ceir rhywfaint o fomentwm gwleidyddol ar lefel y Deyrnas Unedig wrth ystyried camau a fyddai'n hwyluso mabwysiadu mesurau ochr gyflenwi yng Nghymru: o gynorthwyo awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddarparu tai fforddiadwy, i ddiwygio'r system gynllunio, y cyflenwad tir ac iawndal.

gwleidyddol a chyhoeddus hefyd ddargyfeirio ffocws polisi a buddsoddiad tuag at berchentyaeth.

- Mae nifer o weithredwyr sefydliadol yn effeithio ar ganlyniadau tai yn y pen draw. Y tu hwnt i gamau a gymerir gan weinyddiaethau datganoledig, mae polisiâu Trysorlys EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Banc Lloegr i gyd yn effeithio ar dai.
 - Mae darparu tai fforddiadwy weithiau'n ddall i gyfaddawdu rhwng fforddiadwyedd tai a mynediad digonol at drafnidiaeth a gwasanaethau allweddol. Mae darparu tai fforddiadwy mewn mannau fforddiadwy yn syniad sy'n gofyn am gydweithrediad rhwng sectorau – er enghraifft gan fod cynllunio'n un o swyddogaethau awdurdodau lleol, ac mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am drafnidiaeth.
 - Mae'r llenyddiaeth ryngwladol yn dangos, er bod cwmnïau cydweithredol yn elfen fach ond cynyddol o'r ddarpariaeth mewn rhai gwledydd, mewn eraill (e.e. Sweden, Denmarc) maen nhw'n cynrychioli cyfran fawr o'r ddarpariaeth gyffredinol ac yn chwarae rhan bwysig wrth hybu'r cyflenwad tai fforddiadwy. Maen nhw hefyd yn sicrhau ymgysylltiad preswylwyr, yn ogystal â chadw costau'n isel.
-

Casgliad

Gall tai chwarae rhan bwysig wrth atal a lleddfu tlodi, ond gallant hefyd atgynhyrchu a gwaethygu'r anfantais bresennol. Mae eu heffaith ar dlodi yn dibynnu ar sut mae'r system dai yn ffurfio argaeledd, cost, ansawdd, lleoliad a sicrwydd llety. Mae system y Deyrnas Unedig wedi blaenoriaethu perchentyaeth a buddsoddiad cyhoeddus ar ochr y galw ers amser maith, tra bod crebachiad y sector rhentu cymdeithasol yn tanseilio'r hyn a oedd unwaith yn elfen effeithiol iawn o'r wladwriaeth les. Mae'r system hefyd yn cynyddu gwahanu gofodol, gan effeithio ar sawl agwedd ar allgáu cymdeithasol. Mae darparu tai gwirioneddol fforddiadwy wedi cael ei ddiogelu'n fwy yng Nghymru nag yn Lloegr, ond mae cyfleoedd i Gymru wella'r ddarpariaeth. Gellir dysgu gwersi o wledydd eraill yn Ewrop, lle mae'r sector rhentu cymdeithasol yn cystadlu â'r sector rhentu preifat, gan greu system 'fforddiadwyedd ehangach' sy'n annog safonau uwch ac yn ffrwyno costau tai gormodol. Felly, gallai cynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy nid yn unig sicrhau enillion tymor byr, ond hefyd wella fforddiadwyedd tai yn y tymor hir a lleihau ansefydlogrwydd y farchnad dai.

Trosglwyddo i Gymru

Mae Cymru eisoes wedi dangos polisi gwahanol i San Steffan yn y maes hwn drwy ddiogelu'r sector tai rhent cymdeithasol yn fwy (e.e. drwy ddiddymu'r Hawl i Brynu), ac mae darparu tai fforddiadwy wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae agweddau ar les, nad ydynt wedi'u datganoli, yn chwarae rhan gyfyngol drwy gyd-fynd â pholisi tai, ac mae lefelau uchel o dlodi yn ei gwneud yn anodd creu 'marchnad gymdeithasol', gan hybu fforddiadwyedd ehangach. Ar yr un pryd, gallai atebion tymor byr sydd ar gael sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol arwain at newid systemig tymor hir.

Camau gweithredu addawol

Daw'r adran hon i ben gyda **chamau gweithredu addawol** i'w hystyried yng nghydestun Cymru fel rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol.

1. Dylid rhoi blaenoriaeth i hybu darpariaeth tai cymdeithasol sy'n wirioneddol fforddiadwy, yn sicr ac o ansawdd uchel.

- Mae prinder tai cymdeithasol yn arwain at fathau o ddogni, yn cynyddu'r gystadleuaeth am gartrefi ac yn cynyddu costau yn y sector preifat.

- Gall atebion tymor byr sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol arwain at **newid systemig tymor hir – gan greu'r amodau sy'n angenrheidiol i'r system gynyddu 'fforddiadwyedd ehangach'**.
 - Ceir tystiolaeth bod systemau sy'n hyrwyddo fforddiadwyedd ehangach ar draws y system dai yn lleihau costau ac ansefydlogrwydd, yn cynyddu safonau ansawdd ac yn lleihau gwahanu.

2. Gall hyrwyddo rheoleiddio, safonau ansawdd a diogelu tenantiaid yn y sector rhentu preifat hyrwyddo mwy o fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat a chyfrannu at system fforddiadwyedd ehangach.

Cyfeirnodau

Comisiwn Tai Fforddiadwy. (2020). **Making Housing Affordable After Covid-19 A follow up report from the Affordable Housing Commission.** Wedi'i adfer o: <http://www.nationwidefoundation.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Affordable-Housing-Commission-report-July-16-2020-1.pdf>

Andrews, D., a Caldera SáWez, A. (2011). **The Evolution of Homeownership Rates in Selected OECD Countries: Demographic and Public Policy Influences.** Cyfnodolyn OECD: Economic Studies, Cyfrol 2011/1.

Angel, S. (2021). **Housing regimes and residualisation of the subsidized rental sector in Europe 2005-2016.** Housing Studies.

Baker, E., Bentley, R., a Mason, K. (2013). **The mental health effects of housing tenure: causal or compositional?** Urban Studies, 50, 426-442.

Beer, A., Baker, E., Wood, G., a Raftery, P. (2011). **Housing policy, housing assistance, and the wellbeing dividend: developing an evidence base for post-GFC economies.** Housing Studies, 26(7/8), 1171–1192.

Borg, I. (2015) **Housing Deprivation in Europe: On the Role of Rental Tenure Types.** Housing, Theory and Society, 32(1), 73-93.

Bradshaw, J, Chzhen, Y., a Stephens, M. (2008). **Housing: the saving grace in the British welfare state?** yn Fitzpatrick, S a Stephens, M (goln) The Future of Social Housing, Llundain: Shelter, 7-25.

Brennan, M., Reed, P., a Sturtevant, L. (2014). **The Impacts of Affordable Housing on Education: A Research Summary.** Canolfan Polisi Tai. Wedi'i adfer o: <https://www.homelesshub.ca/resource/impacts-affordable-housing-education-research-summary>

Bucelli, I., McKnight, A., a Summers, K. (2020). **Understanding the relationship between inequalities and poverty: policy toolkit.** Adroddiad CASE 125/LIP papur 11, Canolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Llundain: Ysgol Economeg Llundain (LSE). Wedi'i adfer o: https://sticerd.lse.ac.uk/case/_new/publications/abstract/?index=6845

Carter, I. (2022a). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Carter, I. (2022b). **Tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru: Adolygiad o dystiolaeth profiad bywyd.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Caturianas, D., Lewandowski, P., Sokolowski, J., Kowalik, Z., a Barcevicus, E. (2020). **Policies to Ensure Access to Affordable Housing.** Cyhoeddiad ar gyfer y pwyllgor Cyflogaeth a Materion Cymdeithasol, yr Adran Bolisi ar gyfer Polisiâu Economaidd, Gwyddonol ac Ansawdd Bywyd, Senedd Ewrop, Lwcsembwrg. Wedi'i adfer o:

[https://www.europarl.europa.eu/thinktank/en/document.html?reference=IPOL_ATA\(2020\)652733](https://www.europarl.europa.eu/thinktank/en/document.html?reference=IPOL_ATA(2020)652733)

Cyngor ar Bopeth Cymru. (2017). **Fit for human habitation? Private rented sector tenants qualitative research.** Caerdydd: Cyngor ar Bopeth Cymru.

Clapham D., Foye C., a Christian J. (2018). **The concept of subjective well-being in housing research.** *Housing Theory and Society*, 35(3), 261–8.

Christophers, B. (2013). **A monstrous hybrid: The political economy of housing in early twenty-first century Sweden.** *New Political Economy*, 18(6), 885–911.

Cowan, D., Wallace, A., a Carr, H. (2015). **Exploring experiences of shared ownership housing: reconciling owning and renting.** Bryste: Prifysgol Bryste.

Crisp, R., Cole, I., Eadson, W., Ferrari, E., Powell, R., a While, A. (2017). **Tackling poverty through housing and planning policy in city regions.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Crisp, R., Eadson, W., a While, A. (2016). **Tackling poverty through housing and planning policy in city regions.** Sefydliad Joseph Rowntree: Efrog.

Fitzpatrick, S., a Pawson, H. (2014). **Ending Security of Tenure for Social Renters: Transitioning to 'Ambulance Service' Social Housing?** *Housing Studies*, 29(5), 597-615.

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B., a Wood, J. (2017). **The Homelessness Monitor: Wales 2017.** Llundain: Crisis.

Gibb, K., Stephens, M., Reuschke, D., Wright, S., Besemer, K., a Sosenko, F. (2016). **How does housing affect work incentives for people in poverty?** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Gurran, N., Gilbert, C., Gibb, K.D., van den Nouwelant, R. James, A., a Phibbs, P. (2018). **Supporting Affordable Housing Supply: Inclusionary Planning in New**

and Renewing Communities. Adroddiad Terfynol AHURI Rhif 297, Australian Housing and Urban Research Institute Limited, Melbourne.

Hamilton, E. (2021). **Inclusionary Zoning and Housing Market Outcomes.** Cityscape, 23(1), 161–194

Hills, J. (2015). **Good Times Bad Times: the welfare myth of them and us.** Bryste: Policy Press.

Hoekstra, J. (2017). **Reregulation and Residualisation in Dutch social Housing: a critical Evaluation of new Policies.** Critical Housing Analysis, 4(1), 31-39

Jenkins, B. (2009). **Rent control: Do economists agree?** Economic Journal Watch, 6(1), 73-112.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2018a). **Poverty in Wales 2018.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Sefydliad Joseph Rowntree. (2018b). **Housing and life experiences: making a home on a low income.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Sefydliad Joseph Rowntree. (2020). **Poverty in Wales 2020.** Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Kemeny, J., Kersloot, J., a Thalmann, P. (2005). **Non-profit. Housing Influencing, Leading and Dominating the Unitary Rental Market: Three Case Studies.** Housing Studies, 20(6), 855-872.

Kenway, P., Ayrton, C., Chandran, C. a Tortajada, I. (2022). **What makes an anti-poverty strategy effective?.** Llundain: Sefydliad Polisi Newydd.

Kontokosta, C.E. (2014). **Mixed-Income Housing and Neighborhood Integration: Evidence from Inclusionary Zoning Programs.** Journal of Urban Affairs, 36(4), 716-741.

Lind, H. (2012). **Pricing principles and incentives for energy efficiency investments in multi-family rental housing: The case of Sweden.** Energy Policy, 49, 528-30.

Lupton, R. (2004). **Poverty Street: The Dynamics of Neighbourhood Decline and Renewal.** The Policy Press, Bryste.

Marmot, M. (2010). **Fair society: health lives. Strategic review of health inequalities in England post-2010.** Llundain: Adolygiad Marmot.

- McKee, K., Soaita, A.M. a Hoolachan, J. (2020). **'Generation rent' and the emotions of private renting: self-worth, status and insecurity amongst low-income renters.** *Housing Studies*, 35:8, 1468-1487.
- Mense, A., Michelsen, C., a Kholodilin, K. (2019). **Rent Control, Market Segmentation, and Misallocation: Causal Evidence from a Large-Scale Policy Intervention.** DIW Berlin Sefydliad Ymchwil Economaidd yr Almaen.
- Morris, A., Hulse, K., a Pawson, H. (2017). **Long-term private renters: Perceptions of security and insecurity.** *Journal of Sociology*, 53(3), 653-669.
- Muellbauer, J. (2018). **Housing, Debt and the Economy: A Tale of Two Countries.** *National Institute Economic Review*, 245(1), 20-33.
- Mueller, E.J., a Tighe, J.R. (2007). **Making the Case for Affordable Housing: Connecting Housing with Health and Education Outcomes.** *Journal of Planning Literature*, 21(4), 371-385.
- Mukhija, V., Regus, L., Slovin, S., a Das, A. (2010). **Can inclusionary zoning be an effective and efficient housing policy? Evidence from Los Angeles and Orange counties.** *Journal of Urban Affairs*, 32(2), 229–252.
- Mukhija, V., Das, A., Regus, L., a Slovin, S. (2015). **The Tradeoffs of Inclusionary Zoning: What Do We Know and What Do We Need to Know?** *Planning Practice & Research*, 30(2), 222-235.
- Mulheirn, I. (2019). **Tackling the UK housing crisis: is supply the answer?** Canolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai. Wedi'i adfer o: <https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2019/08/20190820-CaCHE-Housing-Supply-FINAL.pdf>
- Murphy, L. (2020). **Neoliberal social housing policies, market logics and social rented housing reforms in New Zealand.** *International Journal of Housing Policy*, 20(2), 229-251.
- Musterd, S., Marcińczak, S., van Ham, M., a Tammaru, T. (2017). **Socioeconomic segregation in European capital cities. Increasing separation between poor and rich.** *Urban Geography*, 38(7), 1062- 1083.
- Norris, M., a Byrne, M. (2018). **Housing market (in)stability and social rented housing: comparing Austria and Ireland during the global financial crisis.** *Journal of Housing and the Built Environment*, 33, 227–245.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019a). **Comparing affordable housing in the UK: April 2008 to March 2018**. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/articles/comparingaffordablehousingintheuk/april2008tomarch2018#stock-how-many-homes-are-there-in-the-social-sector>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019b). **UK Private Rented Sector 2018**. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/ukprivaterentedsector/2018>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020). **Index of Private Housing Rental Prices, UK: May 2021**. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/indexofprivatehousingrentalprices/may2021>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021a). **UK House Price Index: June 2021**. Bwletin Ystadegol Awst 2021. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/housepriceindex/june2021>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021b). **Housing affordability in England and Wales: 2020**. Bwletin Ystadegol Mawrth 2021. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/housingaffordabilityinenglandandwales/2020>

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021c). **House price statistics for small areas in England and Wales: year ending December 2020**. Bwletin Ystadegol Mehefin 2021. Wedi'i adfer o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/housepricestatisticsforsmallareas/yearendingdecember2020>

OECD. (2020a). **Housing and Inclusive Growth**. Paris: OECD Publishing.

OECD. (2020b). **Social housing: A key part of past and future housing policy**. Briffiau Polisi ar Gyflogaeth, Llafur a Materion Cymdeithasol, OECD Publishing: Paris.

Pamment, L., Williams, P., Collins, H., Morgan, K., Willmott, R., a Jenkins, P. (2019). **Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy - Adroddiad Terfynol**. Ebrill 2019. Llywodraeth Cymru. Wedi'i adfer o: <https://gov.wales/independent-review-affordable-housing-supply-report>

Pawson, H., Milligan, V., a Martin, C. (2019). **Building Australia's affordable housing industry: capacity challenges and capacity-enhancing strategies.** International Journal of Housing Policy, 19:1, 46-68,

Perry, J., a Stephens, M. (2018). **How the purpose of social housing has changed and is changing** yn S., Wilcox, J. Perry, M. Stephens, P. Williams a G. Young (goln) UK Housing review, Coventry: CIH.

Poggio, T., a Whitehead, C. (2017). **Social housing in Europe: legacies, new trends and the crisis.** Critical Housing Analysis, 4(1), 1-10

Power, A. a Provan, B., (2018). **Overcoming the Stigma of Social Housing. Can Social Housing rebuild its reputation?** Adroddiad CASE 116, y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Llundain: Ysgol Economeg Llundain (LSE). Wedi'i adfer o: <http://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/cr/casereport116.pdf>

Preece, J., Crawford, J., McKee, K., Flint, J., a Robinson, D. (2020). **Understanding changing housing aspirations: a review of the evidence.** Housing Studies, 35(1), 87-106.

Provan, B., Belotti, A., Lane, L., a Power, A. (2017). **Low Cost Home Ownership Schemes.** Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. Wedi'i adalw o: <http://www.lse.ac.uk/business-andconsultancy/consulting/assets/documents/low-cost-home-ownership-schemes.pdf>

Rothwell, J., a Massey, D. (2010). **Density zoning and class segregation in U.S. metropolitan areas.** Social Science Quarterly, 91(5), 1123-1143.

Salvi del Pero, A. et al. (2016). **Policies to promote access to good-quality affordable housing in OECD countries.** Papurau Gwaith Cymdeithasol, Cyflogaeth ac Ymfudo'r OECD, Rhif 176, Paris: OECD Publishing.

Scanlon, K., Fernández Arrigoitia, M., a Whitehead, C. (2015). **Social housing in Europe.** European Policy Analysis, (17), 1-12.

Scanlon, K. a Kochan, B. (2011). **Towards a sustainable private rented sector: The lessons from other countries.** Ysgol Economeg Llundain (LSE): Llundain. Wedi'i adfer o: http://eprints.lse.ac.uk/56070/1/Towards_a_sustainable_private_rented_sector.pdf

Shelter. (2018). **Learning from International examples of affordable housing.** Wedi'i adfer o:
https://assets.ctfassets.net/6sxvmndnnpn0s/6mvsDCkpUoz2xLJypl5Wmk/574e0f70d447b24075f89af8c57fb17e/International_examples_of_affordable_housing_-_Shelter_URBED_Trust.pdf

Shildrick, T. (2018). **Lessons from Grenfell: Poverty propaganda, stigma and class power.** *The Sociological Review*, 66(4), 783-798.

Singh, A., Daniel, L., Baker, E., a Bentley, R. (2019). **Housing Disadvantage and Poor Mental Health: A Systematic Review.** *American Journal of Preventive Medicine*, 57(2), 262-272.

Slater, T. (2018). **The invention of the 'sink estate': Consequential categorisation and the UK housing crisis.** *The Sociological Review*, 66(4), 877-897.

Sprigings, N., a Smith, D.H. (2012). **Unintended consequences: Local Housing Allowance meets the Right to Buy.** *People, Place and Policy Online*, 6(2), 58-75.

Stephens, M. (2008). **The role of the social rented sector,** yn S. Fitzpatrick ac M. Stephens (Goln) *The Future of Social Housing*, 27–38 (Llundain: Shelter)

Stephens, M. (2019). **Social Rented Housing in the (DIS)United Kingdom: Can Different Social Housing Regime Types Exist within the Same Nation State?** *Urban Research & Practice*, 12(1), 38-60.

Stephens, M. (2020). **How Housing Systems are Changing and Why: A Critique of Kemeny's Theory of Housing Regimes.** *Housing, Theory and Society*, 37(5), 521-547.

Stephens, M., Burns, N., a MacKay, L. (2003). **The Limits of Housing Reform: British Social Rented Housing in a European Context.** *Urban Studies*, 40(4), 767-789.

Stephens, M., a Leishman, C. (2017). **Housing and poverty: a longitudinal analysis.** *Housing Studies*, 32(8), 1039-1061.

Stephens, M., Perry, J., Williams, P., Young, G., a Fitzpatrick, S. (2021). **UK Housing Review.** Sefydliad Tai Siartredig. Wedi'i adfer o:
<https://www.ukhousingreview.org.uk/ukhr21/index.html>

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2019a). **Amcangyfrifon Stoc Anheddau ar gyfer Cymru ar 31 Mawrth 2019.** Datganiad Ystadegol Cyntaf, SFR 89/2019. Wedi'i adfer

o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/dwelling-stock-estimates-april-2017-march-2019-225.pdf>

Ystadegau ar gyfer Cymru. (2019b). **Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2018-19**. Datganiad Cyntaf Ystadegol SFR 98/2019. Wedi'i adfer o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/dwelling-stock-estimates-april-2018-march-2019-508.pdf>

Ystadegau ar gyfer Cymru (2021). **Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2019-20, Datganiad Ystadegol Cyntaf SB 8/2021**. Wedi'i adfer o: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2021-03/dwelling-stock-estimates-april-2019-march-2020-865.pdf>

Tunstall, R., Bevan, M., Bradshaw, J., Croucher, K., Duffy, S., Hunter, C., Jones, A., Rugg, J., Wallace, A., a Wilcox, S. (2013). **The Links between Housing and Poverty: An Evidence Review**. Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree.

Uscreates. (2018). **The lived experience of homelessness**. Llundain: Crisis a Groundswell.

Van Duijne, R.J., a Ronald, R. (2018). **The unraveling of Amsterdam's unitary rental system**. *Journal of Housing and the Built Environment*, 33, 633–651.

Walker, R., Kyomuhendo, G., Chase, E., Choudhry, S., Gubrium, E., Nicola, J., a Ming, Y. (2013). **Poverty in Global Perspective: Is Shame a Common Denominator?** *Journal of Social Policy*, 42(2), 215-233.

Wassenberg, F. (2004). **Large social housing estates: From stigma to demolition**. *Journal of Housing and the Built Environment*, 19(3), 223-232.

Llywodraeth Cymru (2021). **Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020**. Ystadegau. Wedi'i adfer o: <https://gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2021/7/3/1626248922/relative-income-poverty-april-2019-march-2020.pdf>

Whitehead, C. (2018). **Housing Policy and the Changing Tenure Mix**. *National Institute Economic Review*, 245(1), 34-39.

Whitehead, C., a Scanlon, K. (2007). **Social Housing in Europe**, LSE: Llundain. Wedi'i adfer o: <http://www.iut.nu/wp-content/uploads/2017/07/Social-Housing-in-Europe-I.pdf>

Wilson, W., a Barton, C. (2021). **Tackling the under-supply of housing in England**. Papur Briffio Rhif 07671.

Sefydliad Iechyd y Byd. (2018). **WHO housing and health guidelines**, Genefa: Sefydliad Iechyd y Byd.

Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop. (2007). **Large analysis and review of European housing and health status LARES: preliminary overview**. Copenhagen: Sefydliad Iechyd y Byd Ewrop.

Yang, L. (2018). **The net effect of housing related costs and advantages on the relationship between inequality and poverty**, Papur CASE 212 / Papur LIP 9, Canolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Llundain: Ysgol Economeg Llundain (LSE). Wedi'i adfer o: <https://sticerd.lse.ac.uk/dps/case/cp/casepaper212.pdf>

Atodiad: Methodoleg

Diffiniad o dlodi ac allgáu cymdeithasol

At ddibenion y prosiect hwn, cytunwyd y byddai cysyniad aml-ddimensiwn o anfantais, gan gynnwys dimensiynau cymdeithasol yn ogystal ag economaidd, yn cael ei fabwysiadu. Mae Matrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (Levitas et al., 2007) yn darparu'r strwythur damcaniaethol sy'n sail i ddethol meysydd polisi. Mae'r B-SEM yn defnyddio'r diffiniad ymarferol canlynol o allgáu cymdeithasol:

“Proses gymhleth ac aml-ddimensiwn yw allgáu cymdeithasol. Mae'n cynnwys diffyg neu wrthod adnoddau, hawliau, nwyddau a gwasanaethau, a'r anallu i gymryd rhan yn y berthynas a'r gweithgareddau arferol, sydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas, boed hynny mewn meysydd economaidd, cymdeithasol, diwylliannol neu wleidyddol. Mae'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a thegwch a chydlyniant cymdeithas gyfan.”(Levitas et al., 2007, tud.9).

Mae wedi'i strwythuro o amgylch tri phrif faes a deg is-faes (gweler Tabl A1).

Tabl A1: Meysydd ac is-feysydd B-SEM

A. Adnoddau:	
A1: Adnoddau materol/economaidd	Mae hyn yn cynnwys allgáu mewn perthynas ag incwm, hanfodion sylfaenol (fel bwyd), asedau, dyled ac allgáu ariannol.
A2: Mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phreifat	Mae hyn yn ymwneud ag allgáu o wasanaethau cyhoeddus a phreifat oherwydd bod gwasanaethau'n annigonol, yn anfforddiadwy neu nad ydynt ar gael. Mae'r ystod o wasanaethau yn cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus, cyfleustodau, trafndiaeth a gwasanaethau preifat (gan gynnwys gwasanaethau ariannol).
A3: Adnoddau cymdeithasol	Mae hyn yn adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth cymdeithasol ar gyfer lles unigolion. Mae agwedd

allweddol yn ymwneud â phobl sydd wedi'u gwahanu
oddi wrth eu teulu a'r rhai sydd wedi'u sefydliadoli.

B. Cyfranogiad:

B1: Cyfranogiad economaidd	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn cyflogaeth – sydd nid yn unig yn bwysig ar gyfer cynhyrchu adnoddau ond sydd hefyd yn agwedd ar gynhwysiant cymdeithasol ynddo'i hun. Mae p'un a yw gwaith yn brofiad cadarnhaol, cynhwysol yn dibynnu'n rhannol ar y gwobrau ariannol a ddaw yn ei sgil, ac yn rhannol ar natur ac ansawdd y gwaith. Deëllir gwaith yn fras ac mae'n cynnwys gweithgareddau gofalu a gwaith di-dâl.
B2: Cyfranogiad cymdeithasol	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol cyffredin yn ogystal â chydabod pwysigrwydd cyflawni rolau ystyrlon (e.e. fel rhieni, neiniau a theidiau, plant).
B3: Diwylliant, addysg a sgiliau	Mae hyn yn cwmpasu cyfalaf diwylliannol a chyfranogiad diwylliannol. Mae'n cynnwys caffael cymwysterau ffurfiol, sgiliau a mynediad at wybodaeth yn ehangach, er enghraifft cynhwysiant llythrennedd digidol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol a hamdden.
B4: Cyfranogiad gwleidyddol a dinesig	Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ffurfiol yn ogystal â mathau o weithgarwch gwleidyddol distrwythur ac anffurfiol, gan gynnwys ymgysylltu dinesig a chyfranogiad cymunedol.

C. Ansawdd bywyd:

C1: Iechyd a lles	Mae hyn yn ymdrin ag agweddau ar iechyd. Mae hefyd yn cynnwys agweddau eraill sy'n ganolog i les unigolion megis boddhad bywyd, datblygiad personol, hunan-barch, a bod yn agored i stigma.
C2: Amgylchedd byw	Mae hyn yn canolbwyntio ar nodweddion yr amgylchedd byw 'dan do', gyda dangosyddion ansawdd tai, tai annigonol ac allgáu ar ffurf digartrefedd; a'r amgylchedd byw 'awyr agored', sy'n cynnwys nodweddion cymdogaeth.
C3: Troseddu, niwed a throeddoleiddio	Mae hyn yn cynnwys amlygiad i niwed, diogelwch gwrthrychol/goddrychol a throedddu a throeddoleiddio. Mae'n adlewyrchu natur waharddol bosibl bod yn destun

niwed, yn ogystal ag allgáu, stigmatiddio a throseddoleiddio'r cyflawnwyr.

Nodiadau: y disgrifiadau o'r is-feysydd yw dealltwriaeth yr awduron o'r hyn y mae pob is-faes yn ei gynnwys yn seiliedig ar Levitas et al. (2007).


Dewis meysydd polisi

I ddechrau, nododd y tîm ymchwil restr hir o 40 o feysydd polisi gan gyfeirio at feysydd ac is-feysydd y B-SEM. Llywiwyd y rhestr hir, yn rhannol, gan adolygiad o dueddiadau allweddol mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, ar draws y deg is-faes, a gynhaliwyd gan WCPP (Carter, 2022a); ystyried pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru ar draws meysydd polisi; a chyfarfodydd ag arbenigwyr. O'r rhestr hir hon, cytunwyd ar restr fer o 12 maes polisi. Wrth lunio'r rhestr fer, ystyriwyd cyngor ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan grŵp ffocws o arbenigwyr, ond yn y pen draw dewiswyd y rhestr derfynol o 12 polisi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r set derfynol o 12 maes polisi yn cwmpasu sbectwm eang o fewn y B-SEM, ac mae'r rhan fwyaf yn gysylltiedig â mwy nag un is-faes o fewn y B-SEM (Ffigur A1). Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y detholiad terfynol yn gynhwysfawr o safbwynt polisi tlodi ac allgáu cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw nad yw rhai meysydd polisi pwysig wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac, felly, ni chawsant eu cynnwys. Er enghraifft, er bod digonolrwydd nawdd cymdeithasol yn sbardun allweddol i dlodi, nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau ar hyn o bryd i bennu elfennau allweddol o bolisi nawdd cymdeithasol (e.e. cyfraddau a meini prawf cymhwysedd ar gyfer y prif fudd-daliadau mewn gwaith a di-waith). Dyma'r rheswm pam rydym yn canolbwyntio ar un agwedd ar nawdd cymdeithasol, sef y nifer sy'n manteisio ar drosglwyddiadau arian parod, y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i ddylanwadu arni.

Ffactor arall oedd cwmpas a graddfeydd amser y prosiect, a oedd yn cyfyngu'r dewis i 12 maes polisi ac yn golygu bod rhaid eithrio meysydd pwysig eraill (er enghraifft, gofal cymdeithasol, gofal iechyd a throseddu). Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r adolygiadau, roedd hefyd angen nodi ffocws ar gyfer pob un o'r 12 maes polisi. Nododd y tîm ymchwil ffocws ar gyfer pob un o'r adolygiadau ar sail cwmpas cychwynnol byr o'r dystiolaeth ymchwil a thrafod â WCPP, a ymgynghorodd ag arbenigwyr sector a pholisi lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd polisiâu ychwanegol y gellid eu cynnwys mewn strategaeth tlodi ac allgáu cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru o fewn y 12 maes polisi ac yn ogystal â'r 12 maes polisi a adolygwyd.

Ffigur A1. Y meysydd polisi a ddewiswyd wedi'u mapio i is-feysydd B-SEM perthnasol



Ffynhonnell: paratowyd gan yr awduron

Nodiadau: Mae'r ffigur yn amlinellu sut mae'r 12 maes polisi a ddewiswyd yn cysylltu â'r matrices B-SEM: mae llinellau trwm yn dangos y berthynas rhwng pob maes polisi a'r prif is-faes/is-feysydd B-SEM, mae llinellau toredig ysgafn yn nodi is-feysydd B-SEM eilaidd a ddewiswyd y mae'r polisiâu'n gysylltiedig â nhw (mae rhestr lawn o'r 'is-feysydd eilaidd' hyn wedi'i chynnwys yn yr adolygiadau penodol).

Camau adolygu

Yn yr adran 'tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi', er nad oedd yn bosibl cynhyrchu adolygiad systematig llawn (er bod tystiolaeth o adolygiadau systematig presennol a dadansoddiadau meta-lefel wedi'u cynnwys pan oeddent ar gael), mabwysiadwyd dull strwythuredig. I ddechrau, roedd hyn yn cynnwys gwerthuso cyflwr y llenyddiaeth berthnasol, gan ganolbwyntio ar b'un a aseswyd effeithiolrwydd drwy ddulliau yr ystyrir yn gyffredinol eu bod yn fwy addas i sefydlu achosoldeb (e.e. ar sail cynlluniau graddio hierarchaidd fel Graddfa Dull Gwyddonol Maryland (Sherman et al., 1997) neu lefelau tystiolaeth Canolfan Rhydychen ar gyfer Meddygaeth seiliedig ar Dystiolaeth (OCEBM) (Howick et al., 2011)), megis hapdreialon rheoledig, meta-ddadansoddiadau o hapdreialon rheoledig ac astudiaethau lled-arbrofol eraill. Er bod hapdreialon rheoledig yn arbennig o effeithiol wrth nodi a yw ymyriad penodol wedi

cael effaith mewn cyd-destun penodol, gallai mathau eraill o dystiolaeth, fel astudiaethau lled-arbrofol ac arsylwadol gyda rheolaethau priodol, fod yn fwy addas, yn dibynnu ar y math o ymyriad, i sefydlu'r ystod o ganlyniadau a gyflawnwyd yn ogystal â rhoi dealltwriaeth o effeithiau dosbarthiadol a chaniatáu ar gyfer dadansoddi is-grwpiau (h.y. 'i bwy' y gweithiodd yr ymyrraeth). Wrth asesu'r dystiolaeth, dewiswyd astudiaethau achos i ymhelaethu ymhellach ar rai o'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad ac i nodi enghreifftiau penodol o ymyriadau polisi addawol.

Mewn ambell faes, tynnodd yr adolygiad o lenyddiaeth sylw at ddiffyg gwerthusiadau cadarn – mae'r adolygiadau'n tanlinellu hyn ac yn cyflwyno'r dystiolaeth orau a ganfuwyd ynghyd ag asesiad o gryfder y dystiolaeth. Lle y bo'n bosibl, ystyriwyd gwerthusiad o'r mecanweithiau newid sylfaenol hefyd, gan ganiatáu ar gyfer esbonio nid yn unig a yw ymyriad penodol yn gweithio, ond hefyd pam, gan felly hefyd hwyluso'r gwaith o nodi heriau a ffactorau hwyluso, sy'n hanfodol wrth feddwl nid yn unig am 'beth' y dylid ei wneud ond hefyd 'sut' y gellir ei weithredu orau.

Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i nifer o arbenigwyr a fynychodd gyfres o grwpiau ffocws yr oedd eu mewnbyn wedi:

- helpu i lywio'r broses o nodi meysydd polisi allweddol;
- gwella ein dealltwriaeth o drosglwyddo polisïau i Gymru; a
- llywio ein hystyriaeth o heriau gweithredu a ffactorau hwyluso.

Hoffem ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol am gynnal adolygiad cymheiriaid o'r adolygiadau polisi: Dr Rod Hick, Prifysgol Caerdydd; Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan; a Gwennan Hardy; y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Helpodd Amanda Hill-Dixon, Dan Bristow, Manon Roberts ac Isabelle Carter yn WCPP i lywio'r prosiect a rhoesant adborth amhrisiadwy a sylwadau manwl ar ddrafftiau o'r adolygiadau polisi.

Manylion am yr Awduron

Mae Dr Irene Bucelli yn swyddog ymchwil yn y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

Mae Dr Abigail McKnight yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol a Chymrawd Ymchwil Athrawol Cyswllt yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:

Dan Bristow

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored